ATODLEN 2

ERTHYGLAU CYMDEITHASU CWMNI RTM
DEDDF CWMNÏAU 2006
ERTHYGLAU CYMDEITHASU [ENW] CWMNI RTM CYFYNGEDIG
CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT SYDD HEB GYFALAF CYFRANDDALIADAU

# RHAN 2

## CYFARWYDDWYR

### PWERAU A CHYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR

**Caiff cyfarwyddwyr ddirprwyo**

**10.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r erthyglau, caiff y cyfarwyddwyr ddirprwyo unrhyw rai o'r pwerau a roddir iddynt o dan yr erthyglau—

(a) i ba bynnag berson neu bwyllgor;

(b) drwy ba bynnag ddull (gan gynnwys atwrneiaeth);

(c) i ba bynnag raddau;

(ch) mewn perthynas â pha bynnag faterion; a

(d) ar ba bynnag delerau ac amodau;

ag y tybiant yn briodol.

(2) Os yw'r cyfarwyddwyr yn pennu felly, caiff unrhyw ddirprwyo o'r fath awdurdodi dirprwyo pwerau'r cyfarwyddwyr ymhellach, gan unrhyw berson y dirprwywyd y pwerau iddo.

(3) Caiff y cyfarwyddwyr ddirymu unrhyw ddirprwyo yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu newid amodau a thelerau'r dirprwyo.